

Gair o'r Gadair
Cofio Dr Carl Clowes
Fedrwch chi Siarad?

5



Senedd y Gymdeithas 2021-22

Y Senedd yw'r pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwyllo holl waith Cymdeithas yr Iaith. Yn ystod y flwyddyn, cynhelir Senedd Ymgyrchoedd bedair gwaith, Senedd Ranbarthau deirgawith a Senedd Weinyddol deirgwaith. Mae croeso i aelodau'r Gymdeithas ddod i'r cyfarfodydd.

Cafodd y canlynol eu hethol yn y Cyfarfod Cyffredinol ym mis Tachwedd 2021:

Cadeirydd Cenedlaethol
Mabli Siriol

Is-gadeirydd Cyfathrebu
Tamsin Davies

Is-gadeirydd Gweinyddol
Mai Roberts

Trysorydd
Danny Grehan

Swyddog Codi Arian
Bethan Ruth

Golygydd y Tafod
Mared Llywelyn

Swyddog Dylunio
Carwyn Hedd

Swyddog Mentrau Masnachol
Mirain Owen

Swyddog Dysgwyr
Nia Llywelyn

Swyddog Rhyngwladol
Joseff Gnagbo

Swyddog y We
Llinos Anwyl

Cadeirydd y Grŵp Addysg
Toni Schiavone

Is-gadeirydd y Grŵp Addysg
Ifan Jones

Cadeirydd y Grŵp Cymunedau Cynaliadwy
Jeff Smith

Is-gadeirydd y Grŵp Cymunedau Cynaliadwy
Elin Hywel

Cadeirydd y Grŵp Dyfodol Digidol
Elfed Wyn ap Elwyn

Is-gadeirydd y Grŵp Dyfodol Digidol
Mirain Owen

Cadeirydd y Grŵp Iechyd a Lles
Gwerfyl Roberts

Mae cynrychiolydd o bob rhanbarth hefyd yn aelodau o'r Senedd.

Staff cyflogedig

Carol Jenkins
Ysgrifennydd Cyffredinol
post@cymdeithas.cymru

Bethan Williams
Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt
Gwleidyddol
cyfathrebu@cymdeithas.cymru

Matt Spry
Swyddog Ymgyrchoedd
ymgyrch@cymdeithas.cymru

Y Cyfarfod Cyffredinol

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol (y 'Cyf Cyff') fore dydd Sadwrn, 13 Tachwedd.

Mae'r holl gynigion a basiwyd i'w gweld ar wefan y Gymdeithas.

cymdeithas.cymru/cyf-cyff-2021

MABLI SIRIOL



Gair o'r gadair

Bu 2021 yn flwyddyn ansicr ac anodd unwaith eto, ond dw i'n teimlo'n hynod falch o'n mudiad a phopeth rydyn ni wedi'i gyflawni gyda'n gilydd. Yn arbennig wrth i ni edrych ymlaen at 60 mlwyddiant Cymdeithas yr Iaith yn 2022, mae'n bwysig fel ymgyrchwyr ein bod

ni'n cydnabod ac yn dathlu ein llwyddiannau er mwyn ein cynnal ar gyfer y brwydrau sydd i ddod.

Yn etholiadau'r Senedd y llynedd, gwelwyd y prif bleidiau'n mabwysiadu nifer o alwadau ein dogfen weledigaeth *Mwy na Miliwn*

– *Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb*. Tua diwedd y flwyddyn, cyhoeddwyd cytundeb cydweithio rhwng y Llywodraeth a Phlaid Cymru sy'n cynnwys ymrwymïadau pwysig a phellgyrhaeddol i nifer fawr o'r galwadau rydyn ni wedi bod yn ymgyrchu drostynt.

Ym maes tai a chynllunio, mae hyn yn cynnwys gosod cap ar nifer yr ail dai a llety gwyliau mewn cymunedau, cyflwyno treth ar dwristiaeth a rheoli rhent. Ym maes addysg, mae'n cynnwys hyfforddi rhagor o athrawon, hwyluso symudiad ysgolion i gategori Cymraeg uwch a rhagor o brentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Ym maes darlledu, mae'r ddogfen yn datgan am y tro cyntaf gefnogaeth swyddogol i ddatganoli darlledu a chreu Awdurdod Darlledu cysgodol. Yn ogystal, mae'n ymrwymo'r Llywodraeth i ailddechrau gosod safonau ar wasanaethau allweddol.

Does dim amheuaeth taw diolch i ymdrechion ymgyrchwyr ar draws gwahanol feysydd, gan gynnwys y Gymdeithas, y mae'r polisiau yn y cytundeb wedi bod ar yr agenda ac yn mynd i gael eu gweithredu nawr.

Rydyn ni hefyd wedi gweld buddugoliaethau eraill ym maes addysg eleni, yn cynnwys yr ymgyrch

lwyddiannus i achub Ysgol Mynydd y Garreg, gorfodi Cymwysterau Cymru i oedi ar eu cynllun i gadw Cymraeg Ail Iaith a buddsoddiad gan y Llywodraeth mewn canolfannau trochi ar draws y wlad.

Ac wrth gwrs, mae ein hymgyrch Nid yw Cymru ar Werth wedi tanio pobl ymhob rhan o Gymru. Dw i'n gwybod bod nifer ohonoch wedi chwarae rhan yn y ddwy rali genedlaethol fawr yn Nhryweryn a Chaerdydd lle daeth dros fil o bobl at ei gilydd i fynnu gweithredu i sicrhau cartref i bawb a chymunedau cryf, Cymraeg ar draws y wlad. O ganlyniad i'n gwaith ar y cyd ag ymgyrchwyr eraill, rydyn ni wedi sicrhau gweithredu gan y Llywodraeth yn cynnwys cynlluniau i reoleiddio llety gwyliau, gosod amodau cynllunio ar droi tai yn ail gartrefi ac arian i osod tai gwag i bobl leol. Rydyn ni hefyd wedi gweld rhagor o awdurdodau lleol yn cynyddu'r premiwm treth gyngor ar ail dai.

Er bod y frwydr dros ein cymunedau wedi bod yn un hir, mae'n bwysig gwerthfawrogi yn union faint o gynnydd sydd wedi bod yn y maes yma dros y flwyddyn ddiwethaf – gyda pholisiau fyddai wedi cael eu hystyried yn afrealistig ddim yn hir yn ôl nawr yn cael eu cyflwyno. Dyna beth all ddigwydd pan rydyn ni'n ymgyrchu.

Mae Cymru lle mae pob un o'n cymunedau ar seiliau cadarn, a phawb yn gallu dysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd, yn bosib. Mae gyda ni'r atebion, yr hyn sydd ei angen ydi gweithredu.

Ac mae'n rhaid i ni gofio – mae gwleidyddion yn gweithio i ni, maen nhw'n atebol i ni. Nid ein harweinwyr ydyn nhw, ond ein cynrychiolwyr. A gyda'n gilydd, mae'r grym gyda ni.

Rydyn ni wedi ennill o'r blaen ac mi wnawn ni eto. Byddwn ni'n adeiladu ar ein llwyddiannau eleni ac mi fyddwn ni'n ennill Deddf Addysg Gymraeg i Bawb, grymoedd darlledu i Gymru a Deddf Eiddo er budd ein cymunedau.

Felly diolch yn fawr i bob un ohonoch chi fel aelodau o'r mudiad arbennig hwn am bopeth rydych chi

wedi'i wneud yn ystod 2021. Boed hynny'n stiwardio mewn rali, trefnu ein gweithgareddau i ddysgwyr, cymryd rhan mewn ymgyrchoedd neu gyfrannu'n ariannol – mae pob cyfraniad yn cyftri, a dim ond diolch i'n haelodau gallwn ni gyflawni unrhyw beth.

Mae'r llwybr o'n blaenau'n edrych yn anodd ar adegau, ond dros 60 mlynedd mae un gwirionedd wedi aros yn gyson: pobl gyffredin sydd wedi sicrhau pob buddugoliaeth rydyn ni wedi'i chael dros ein hiaith a'n cymunedau hyd yn hyn, a nhw fydd yn ennill y buddugoliaethau i ddod hefyd.

Felly gofynnwch i chi'ch hunain ar drothwy blwyddyn newydd: sut galla i fod yn rhan o bopeth wnawn ni ennill yn y 60 mlynedd nesaf?

Rydyn ni'n chwilio am wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r gwaith o nodi ein 60 mlwyddiant yn 2022, yn cynnwys datblygu manifestio nesaf y Gymdeithas a threfnu ein gigs i ddathlu yn yr Eisteddfod. Allech chi helpu?

Cysylltwch â post@cymdeithas.cymru i roi gwybod!



DYDD MIWSIG CYMRU 4 Chwefror 2022

Beth am fynd ati i drefnu digwyddiad i ddathlu cerddoriaeth Gymraeg yn eich ardal chi?

Cyfle i ddod â Chymry a siaradwyr newydd at ei gilydd.

Does dim rhaid iddo fod yn rhywbeth mawr...sesiwn canu mewn tafarn, sêl recordiau, noson meic agored ac ati.

Cysylltwch â post@cymdeithas.cymru neu 01970624501 i gael cymorth i drefnu neu hyrwyddo digwyddiad.

**DATHLU'R
60**

Cyfres newydd

Llyfrau Broga Luned Aaron

Mae **Llyfrau Broga** yn wasg sy'n canolbwyntio ar gyhoeddi llyfrau o safon i blant a phobl ifanc Cymru. Dyma roddion delfrydol i blant ac i rieni eu mwynhau gyda nhw.

Mae cyfres hynod gyffrous newydd ei lansio, sef *Enwogion o Fri*. Dyma gyfres hardd a lliwgar sydd wedi ei hanelu at gynulleidfa ifanc, oddeutu 3-7 oed, a fydd yn cyflwyno rhai o enwogion Cymru i blant, a hynny ar ffurf Llyfrau Gair a Llun.

Bydd artist ac awdur gwahanol yn creu pob cyfrol, ac felly bydd diwyg pob llyfr yn amrywio yn ôl y testun. Fe fydd gwir amrywiaeth yng nghyfraniadau'r unigolion, o artistiaid a beirdd i wyddonwyr ac unigolion ym myd chwaraeon. Dyma'r tri llyfr cyntaf yn y gyfres:

Cranogwen – Bywyd Arloesol Sarah Jane Rees (Geiriau: Anni Llŷn. Lluniau: Rhiannon Parnis)

Gwen – Bywyd Lliwgar Gwen John (Geiriau: Casia Wiliam. Lluniau: Gwen Millward)

Shirley – Bywyd Byrlymus Shirley Bassey (Geiriau: Bethan Gwanas. Lluniau: Hanna Harris)

Meddai Anni Llŷn am ei chyfrol ar fywyd Cranogwen:



“Roedd hi mor arloesol ac yn mynnu dal ati i wneud beth oedd hi eisiau. Ond nid yn unig hynny, gweithiodd i fod y gorau mewn meysydd yr oedd cymdeithas yn dweud na ddylai hi ac na

allai hi wneud am ei bod hi'n ferch.”

Mae'r gyfres *Enwogion o Fri* ar werth am £5.99 yr un ac ar gael yn y siopau llyfrau neu o wefan Gwales (www.gwales.com).

Pam y gyfres?

Dyna feddwl yn gyntaf mor hoff ydi plant o hel cyfresi llyfrau ac y byddai cyfres a fyddai'n cyflwyno hanes unigolion amrywiol yn ein

hanes fel cenedl yn gyflwyniad gwerthfawr i gynulleidfa ifanc.

Llyfrau Gair a Llun ydi'r llyfrau yma, a hynny gan ein bod yn gweld bod angen rhagor o lyfrau o'r math yma i blant ifanc yn y Gymraeg. Bydd artist ac awdur gwahanol ar gyfer pob cyfrol, ac yn naturiol, bydd yr elfen weledol yn asio gyda'r testun.

Ein prif fwriad gyda'r gyfres yma, felly, fydd cyflwyno ein hanes trwy straeon diddorol ac ysbrydoledig i blant ifanc. Bydd arddull weledol y llyfrau yn lliwgar a deniadol, fel bod plant yn mwynhau'r profiad o ddarllen yr hanesion.

Sut wnawn ni ddewis yr enwogion?

Yn sicr, does yna ddim prinder o ran unigolion y gallwn fynd ar eu hôl, ac mae gennym ni restr hir i fynd drwyddi! Bydd amrywiaeth yn hanfodol o ran y straeon a'r unigolion, a byddwn yn mynd ar ôl meysydd amrywiol, o wyddonwyr ac unigolion ym myd chwaraeon,

i artistiaid ac arloeswyr, er mwyn cadw diddordeb plant yn y gyfres.

Yn ogystal gan Llyfrau Broga...

Ar gyfer plan hŷn, mae tri llyfr comic newydd dan faner Llyfrau Broga hefyd ar silffoedd ein siopau llyfrau lleol. Mae *Yr Allwedd Amser* gan Ben Hillman, *Rali'r Gofod 4002* gan Joe Watson a *Gwil Garw a'r Carchar Crisial* gan Huw Aaron, i gyd yn llyfrau newydd, llawn lliw sydd wedi eu hanelu at blant 7-12 oed. Tair stori gyffrous sydd yma ac mae'r wasg yn grediniol fod llyfrau comics yn ffordd wych o ddenu darllenwyr anffoddog neu anhyderus i agor y cloriau.

Maent ar gael am £6.99 yr un yn eich siop lyfrau lleol neu ar wefan Gwales (www.gwales.com).



A portrait of Dr. Carl Clowes, an older man with white hair, wearing a dark jacket over a grey turtleneck. He is holding a black microphone with a gold band. The background is a blurred green, suggesting an outdoor setting.

Cofio Dr Carl Clowes

Trist oedd clywed am farwolaeth y Dr Carl Clowes, ymgyrchydd a gweithredwr dros y Gymraeg a'i chymunedau.

Sefydlodd Antur Aelhaearn yn ôl yn y saithdegau fel y Fenter Gydweithredol Gymunedol gyntaf yng ngwledydd Prydain. Sefydlodd Ganolfan Iaith Genedlaethol Nant Gwrtheyrn yn 1981, lle sy'n denu miloedd o ymwelwyr y flwyddyn, yn ganolfan bwysig i'r gymuned ac yn cynnig bywoliaeth i bobl leol ers ei sefydlu. Diolch i'w weledigaeth ef mae'r Nant yn parhau i fod yn hafan ac yn ysgogi dysgwyr Cymraeg, ac roedd uchelgais y weledigaeth honno i'w gweld yn glir ar raglen Beti a'i Phobl yn 2016:

'Llwyddiant Nant Gwrtheyrn yn y pen draw fydd ddim mo'i angen e a phawb yng Nghymru yn siarad Cymraeg.'

Yn yr wythdegau, sefydlodd Dolen Cymru Lesotho a oedd yn adlewyrchiad o'i weledigaeth fyd-eang.

Bu hefyd yn hyrwyddo ynni cymunedol cynaliadwy yn lle gorsafoedd niwclear. Dros y pymtheg mlynedd diwethaf, bu'n ymgyrchu yn erbyn ynni niwclear a bygythiad Wylfa B.

Rhyw ddeugain mlynedd cyn i Gymdeithas yr Iaith ddatgan yn "Tynged yr Iaith 2" mai "Dyfodol yr Iaith yw Dyfodol ein Cymunedau", bu Carl yn gweithredu hyn.

Estynnwn ein cydymdeimlad i'w deulu a'i gyfeillion. Roedd Dr Carl Clowes yn arloeswr, a bydd gwaddol ei waith yn aros, yn Nant Gwrtheyrn ac ar hyd a lled y wlad.

Fedrwch chi Siarad?

Galw ar aelodau Cymdeithas yr Iaith!

'Dach chi'n awyddus i helpu pobol sy'n dysgu Cymraeg?

Mae gan y Gymdeithas hanes clodwiw o gefnogi'r rhai sy'n dysgu'r iaith. Fel aelod o'r Gymdeithas ers dyddiau ysgol (beth amser yn ôl!) dwi'n gwybod bod y Gymdeithas yn barod yn trefnu digwyddiadau a chysiau preswyl, ac wrth gwrs yn groesawgar iawn i bob aelod newydd o'r mudiad sy'n dal ar y daith i ddod yn rhugl.

Ond heddiw 'da ni'n gofyn am ryw beth gwahanol. Efallai eich bod wedi clywed am gynllun **Siarad**, ar Radio Cymru neu S4C, neu yn eich papur bro.

Mae **Siarad** yn gynllun i helpu dysgwyr sy'n gallu cynnal sgwrs naturiol am fywyd bob dydd a sydd eisio ymarfer. 'Dan ni'n chwilio am siaradwyr rhugl sy'n fodlon rhoi ychydig o'u hamser i'w helpu nhw i feithrin hyder a defnyddio mwy o Gymraeg. Mae pob gwirfoddolwr dros 18 oed, yn cwrdd mewn llefydd cyhoeddus neu ar-lein. Dyma ffordd ymarferol, hwylus, i helpu pobol sy'n dysgu Cymraeg ac sy'n awyddus i ddod yn rhugl.

Mae'n bwysicach nag erioed ar ôl yr 20 mis diwetha, lle mae hi wedi bod mor anodd i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol.

Mae cynllun **Siarad** yn gynllun cenedlaethol sy'n rhedeg ers pedair blynedd. Daeth y syniad yn wreiddiol o Gatalunya, lle mae miloedd o siaradwyr Catalaneg yn paru efo unigolyn sy'n dysgu'r iaith, er mwyn eu helpu i ddod yn rhugl drwy ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth.

'Dan ni'n gofyn i bobol ymrwymo i siarad efo unigolyn sy'n dysgu am **ddim ond 10 awr** o fewn blwyddyn. Chi a'ch partner sy'n penderfynu lle, pryd a sut dach chi'n cyfarfod – mewn cymdeithas Gymraeg, mewn caffi neu dafarn, mewn gig neu ddrama, wrth fynd am dro rhywle cyhoeddus, ar-lein – neu gyfuniad o'r rhain. Be sy'n bwysig ydy rhoi cyfle iddyn nhw gael mynediad rhwydd i'r gymdeithas Gymraeg yn eich ardal.

Y cwbl sydd rhaid i chi wneud yw cofrestru ar www.dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad (mi gewch chi lawer mwy o wybodaeth am y cynllun ar y dudalen yma), dewis eich darparwr Dysgu Cymraeg lleol, a byddan nhw'n cysylltu efo manylion cyswllt dysgwr i fod yn bartner **Siarad** i chi.

Wrth gwrs, ar ôl i chi gofrestru, os oes ganddoch ffrind sydd wedi cael partner **Siarad** hefyd, beth am drefnu i gyfarfod eich gilydd fel criw o bedwar? Yn enwedig mewn digwyddiad sy'n cael ei drefnu gan y Fenter Iaith, neu ddrama / cyngerdd / gig Gymraeg.

Llynedd mi gafwyd dros 250 pâr dros Gymru er gwaetha'r pandemig, ond roedd 'na restr aros o ddysgwyr ym mhob ardal gafodd eu siomi gan bod dim digon o wirfoddolwyr. Nhw

fydd yn cael blaenoriaeth eleni. Does dim angen i chi boeni am safon eich Cymraeg, na safon Cymraeg eich partner! Nid tiwtor ydych chi, ond siaradwr naturiol sy'n rhoi cyfle iddyn nhw ddefnyddio eu Cymraeg yn anffurfiol, ac mi fyddan nhw'n gwerthfawrogi hynny yn fawr.

Bydd ambell i ddigwyddiad cenedlaethol rhithiol lle byddwch yn cael gwahoddiad. Cyfle i gychwyn sgwrs yn eich cyfarfod nesaf, o bosib.

Ewch ar y wefan i weld mwy am y cynllun, a gobeithio'n wir y gwnewch chi ystyried cofrestru. Os oes ganddoch chi gwestiynau pellach, croeso i chi fy ehostio ar **eirian.conlon@dysgucymraeg.cymru**

Diolch yn fawr ymlaen llaw am eich cymorth efo **Siarad**!

Eirian Wyn Conlon
Cydlunydd y Cynllun, y Ganolfan Dysgu Cymraeg.



Ar risiau'r Senedd

Daeth pobl o bob cornel o Gymru i Gaerdydd ym mis Tachwedd i alw am weithredu brys er mwyn mynd i'r afael â'r anghyfiawnder tai.



O Gaernarfon i Gaerdydd

Beiciodd Osian Jones bron i 200 milltir o Gaernarfon i Gaerdydd i gyflwyno llythyr i'r Senedd gydag enwau 400 o gynghorwyr yn galw am weithredu ar yr argyfwng tai.

Cafodd groeso cynnes gan y dorf wedi'r daith hir. Gobeithio bydd ein llywodraeth yn dangos yr un ymroddiad ag Osian wrth fynd ati i daclo'r argyfwng.

Da iawn, Osian!



Nwyddau Newydd!



cymdeithas.cymru/siop

RALI TYNGED YR IAITH NID YW CYMRU AR WERTH



ABERYSTWYTH



2PM SADWRN
19EG CHWEFROR 2022